Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# St David's College

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 23/05/2017**

## Cyd-destun

Ysgol ddydd a phreswyl annibynnol yw St David's College, sy'n addysgu bechgyn a merched rhwng 9 a 19 oed. Mae'r ysgol wedi ei lleoli ar dir helaeth ychydig i'r de o Landudno yng ngogledd Cymru.

Agorodd yr ysgol ym 1965, yn elusen addysgol a sefydlwyd gan Weithred Ymddiriedolaeth i ddarparu addysg uwchradd o fewn fframwaith Cristnogol. Athroniaeth yr ysgol yw darparu addysg 'unigolyn cyflawn'. Ei nod yw 'cadw cydbwysedd rhwng datblygiad deallusol, corfforol ac ysbrydol ac arwain pob disgybl yn briodol'. Caiff yr ysgol ei gweinyddu gan fwrdd llywodraethwyr.

Ar hyn o bryd, mae 225 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae St David's College yn addysgu disgyblion ag ystod eang o alluoedd. Mae gan 16% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth yn Ionawr 2009. Roedd yr arolygiad llawn diwethaf yn Hydref 2012.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae gan ddisgyblion agwedd gadarnhaol tuag at eu dysgu ac maent yn cymryd rhan ym mhob gwers a gweithgaredd yn frwdfrydig.

Mae disgyblion yn gefnogol i'w gilydd. Maent yn ymddwyn yn dda ac yn foesgar ac yn gwrtais i ymwelwyr.

Mae athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn creu amgylchedd dysgu cadarnhaol. Mae athrawon cymorth arbenigol yn darparu cymorth 1:1 hynod effeithiol i ddisgyblion.

Mae arbenigwyr pwnc cynradd ac uwchradd yn cyflwyno'r cwricwlwm i Flynyddoedd 5 a 6. Mae hyn yn rhoi cyfle da i ddisgyblion ddefnyddio cyfleusterau arbenigol ac yn ehangu eu gwybodaeth bynciol.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod helaeth o weithgareddau allgyrsiol cyffrous. Mae gan uwch arweinwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu.

## Meysydd i'w datblygu

Mae gormod o amrywiad yng nghynnwys cynlluniau gwaith. Yn yr enghreifftiau gorau, caiff ystod o weithgareddau, trefniadau asesu a chyfleoedd i ddatblygu medrau disgyblion eu nodi'n glir. Mewn ychydig o bynciau, mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n annibynnol.

Mae ansawdd gwaith disgyblion mewn pynciau ar draws y cwricwlwm yn anghyson. Mae'r ysgol wedi gwella'r prosesau ar gyfer arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau. Er bod y rhain yn canolbwyntio'n addas ar safonau ac addysgu, nid yw'r adroddiadau ysgrifenedig yn darparu manylion digon arfarnol bob tro. Felly, cânt effaith gyfyngedig ar godi safonau a gwella addysgu.

## Argymhellion

A1 Sicrhau mwy o gysondeb yn ansawdd gwaith disgyblion mewn pynciau ar draws y cwricwlwm

A2 Gwella monitro safonau a darpariaeth ar draws y cwricwlwm ym Mlynyddoedd 5 a 6

A3 Sicrhau bod pob cynllun gwaith o ansawdd da ac yn cynnwys ystod o weithgareddau, trefniadau asesu a chyfleoedd i ddatblygu medrau

A4 Darparu manylion mwy arfarnol wrth arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau er mwyn iddynt gael mwy o effaith ar godi safonau

## Cynnydd wrth fynd i’r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwella’r broses arsylwi gwersi i gynnwys arfarniad o’r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Yn ddiweddar, mae uwch arweinwyr wedi cyflwyno ffurflen arsylwi gwersi newydd. Mae’r ffurflen newydd yn gofyn i’r arsylwr roi sylwadau ar safon y gwaith y mae disgyblion yn ei gynhyrchu. Mae hyn yn cynnwys sylwadau ar safonau llythrennedd, rhifedd a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion, lle bo hynny’n briodol.

Fodd bynnag, mae ansawdd y sylwadau arfarnol ar y ffurflenni hyn yn rhy amrywiol.

**Argymhelliad 2: Datblygu prosesau effeithiol ar gyfer cadw cofnodion i sicrhau bod dogfennau polisi yn cael eu diweddaru ac yn adlewyrchu arweiniad diweddaraf Llywodraeth Cymru**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae’r ysgol yn adolygu’r holl ddogfennau polisi yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol. Erbyn hyn, mae pob polisi’n cynnwys dyddiad adolygu ac yn enwi’r aelod staff a’r llywodraethwr sy’n gyfrifol am ddiweddaru’r ddogfen.

Mae’r ysgol wedi nodi pan fo arweiniad ar gael gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod yr holl bolisïau’n adlewyrchu’r gofynion diweddaraf.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon

**Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | St David's College |
| **Rhif yr ysgol** | 6626017 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 15/03/2017 |
| **Perchennog** | Cadeirydd Llywodraethwyr St David's College Trust Mr Tim Vince |
| **Staff** | 1 pennaeth, 1 bwrsar a chlerc i'r llywodraethwyr, 5 aelod o'r uwch dîm rheoli, 35 o athrawon amser llawn (gan gynnwys rhieni tŷ), 22 o athrawon rhan-amser, 4 cynorthwyydd preswyl, 1 fetron ieuaf/cynorthwyydd addysgu CA2 |
| **Nifer y disgyblion** | 225 |
| **Darpariaeth** | Ysgol gydaddysgol annibynnol sy'n cynnig lleoedd preswyl a lleoedd dydd i ddisgyblion rhwng 9 a 19 oed, sydd ag ystod eang o alluoedd ac anghenion. |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Dyslecsia yn bennaf. Hefyd dyspracsia/anhwylder yn natblygiad y cydsymud (DCD), anhwylder ar y sbectrwm awtistig (ASD), anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD), iaith a lleferydd. |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 01/10/2012 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 01/09/2015 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 01/02/2016 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Ms Michelle Gosney | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Rosemary Lloyd Lait | Arolygydd Tîm |